# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Gorfodi*

### 34 Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adrannau 32 a 33

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud y gyfryw ddarpariaeth ag a ystyrir yn briodol ganddynt ar gyfer ategu darpariaethau adrannau 32 a 33.

(2) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (1), er enghraifft, wneud darpariaeth—

(a) ar gyfer sicrhau nad yw personau wedi eu niweidio’n annheg gan orchmynion ad-dalu rhent (mewn achosion pan fo gordaliadau o gredyd cynhwysol neu fudd-dal tai wedi digwydd neu fel arall);

(b) i’w gwneud yn ofynnol i ymdrin â symiau a dderbynnir gan yr awdurdod trwyddedu neu awdurdodau tai lleol yn rhinwedd gorchmynion ad-dalu rhent mewn modd a bennir yn y rheoliadau, neu i awdurdodi hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 34 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 34 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**I3** A. 34 mewn grym ar 23.11.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2016/1066, **ergl. 2**

**I4** A. 34 mewn grym ar 23.11.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2016/1009, **ergl. 2(2)(q)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 34.